**<u>COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT</u>**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **<u>THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH</u>** |
| **SUBJECT:** | **<u>PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 14 EBRILL 2021 DYDD MERCHER, 14 EBRILL 2021</u>** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Michelle Hicks (Ysgrifennydd) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Pob Cynghorydd (Monitro) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Andrea Prosser (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.<br><br>**MUNUD O DAWELWCH – EUB DUG CAEREDIN**<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y clywsom gyda thristwch mawr ddydd Gwener ddiwethaf am farwolaeth EUB Dug Caeredin. Teimlai'r Arweinydd fod hyn yn nodi diwedd cyfnod hir a phwysig mewn hanes ac ar ran Blaenau Gwent dymunai gynnig cydymdeimlad i'r Frenhines ac aelodau o'r Teulu Brenhinol yn ehangach.<br><br>Yn absenoldeb cyfarfod ffurfiol o'r Cyngor, gofynnodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Gweithredol nodi munud o dawelwch fel arwydd o farch i EUB Dug Caeredin. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorydd S. Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaetha Cymdeithasol<br>Cynghorydd S. Healy, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol<br>Cynghorydd J. Hill, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adfywio<br>Cynghorydd G.A. Davies, Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Adfywio<br><br>**CYFLWYNIAD A CHROESO**<br><br>Estynnodd yr Arweinydd groeso i'r Pwyllgor Gweithredol i Luisa Munro-Morris a benodwyd yn ddiweddar yn Bennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant. Dywedodd yr Arweinydd ei fod ef a'r Aelod Gweithredol Addysg yn teimlo ei bod yn addas fod y Swyddog yn bresennol i sicrhau ei bod yn teimlo'n rhan o'r tîm yn syth.<br><br>Llongyfarchodd yr Arweinydd y Swyddog am gyfweliad rhagorol ac roedd yn hynod falch iddi dderbyn y swydd. Teimlai'r Arweinydd yn hyderus y gallai'r Awdurdod fod yn sicr bod y rhaglen gwella ysgolion mewn dwylo diogel. O sgyrsiau gyda'r Aelod Gweithredol Addysg, nododd yr Arweinydd y byddai'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn ychwanegu at dîm sydd eisoes yn gryf ac ymroddedig. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant a goddefebau. | |
| | **COFNODION** | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 4** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 5** | **GRANTIAU I SEFYDLIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw grantiau i sefydliadau. | |
| **No. 6** | **ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020 SYSTEM CCTV GOFOD CYHOEDDUS**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad ar y cyd gan y Prif Swyddog Adnoddau (SIRO CCTV), y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Interim Masnachol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn amlinellu drafft Adroddiad Monitro Blynyddol 2020 CCTV Gofod Cyhoeddus yn cwmpasu'r cyfnod 1 Medi 2019 – 31 Rhagfyr 2020. Mae'r adroddiad, a fanylir yn Atodiad 1, y cyntaf o'r hyn fydd yn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwraeth, i gefnogi datblygiad dull holistig i godi ei safonau a chydymffurfiaeth.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog am yr adroddiad ymhellach a nododd y cynnydd a wnaed mewn cysylltiad gyda chydymffurfiaeth gyda Chod Ymarfer CCTV y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwraeth. Cydnabuwyd y sesiynau ymgysylltu llwyddiannus gydag Aelodau a dywedwyd y caiff adborth o'r cyfarfodydd hyn ei gynnwys yn y Flaenraglen Gwaith.<br><br>Dywedwyd hefyd y cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol oedd yn cefnogi Opsiwn 2 gydag argymhelliad ychwanegol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Craffu yn argymell ymhellach fod y Pwyllgor Gweithredol yn ymchwilio'r posibilrwydd o gyllid ychwanegol ar gyfer y system mewn cysylltiad gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a dod â phapur yn ôl i'r Pwyllgor Craffu i | |

| | | |
|---|---|---|
| | adolygu os yw darpariaeth yn gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod heriau technegol yn ymwneud â chamerâu yn nhermau cyflymder lawrlwytho a chysylltiadau Wi-Fi. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd hyn wedi arwain at unrhyw golled mewn recordiad a bod angen mwy o waith i drin y mater.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at drafodaethau blaenorol gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lle cadarnhawyd na fyddai cyllid ychwanegol ar gael gan nad oedd y system yn cynnwys monitro byw. Teimlid na fedrid cefnogi’r buddsoddiad heb y swyddogaeth yma.<br><br>Bu cynigion pellach i symud ymlaen â nhw ar sail Gwent gyfan, fodd bynnag bu blaenoriaethau mewn meysydd eraill ers y pandemig ym mis Mawrth 2020. Felly, cynghorodd y Rheolwr Gyfarwyddwr pe byddai’r trafodaethau hyn yn ailddechrau y byddai’r Awdurdod yn cymryd rhan er mwyn canfod datrysiad.<br><br>Teimlai’r Aelod Gweithredol dros Ddatblygu Economaidd ac Adfywio ei bod yn bwysig fod gan y Cyngor gysylltiadau Wi-Fi digonol ar draws y Fwrdeistref i gefnogi gwella systemau. Teimlai’r Aelod Gweithredol fod gan yr Heddlu a phartneriaid eraill ddiddordeb personol mewn CCTV mewn trefi, yn arbennig mewn camerâu cudd a fyddai’n fwy buddiol mewn rhai achosion.<br><br>Cefnogodd yr Arweinydd argymhelliad y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a chytunodd fod angen i’r Awdurdod gymryd rhan mewn trafodaethau a gynhelir er mwyn bod yn rhan o drefniant gweithio ar draws Gwent. Gobeithiai’r Arweinydd y byddai gan CCTV le blaenllaw ar Flaen-raglen Gwaith y Pwyllgor Craffu dros y 12 mis nesaf gan ei fod yn bwysig i’n cymunedau ac felly mae angen seilwaith i fod yn ei le i sicrhau ein bod yn diogelu a gwella ein cymunedau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo’r Adroddiad Monitro Blynyddol (yn cynnwys yr atodiadau cefnogi) ac wedyn caiff yr adroddiad ei gyhoeddi a’i anfon at y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwraeth. Rhoddodd y Pwyllgor Gweithredol hefyd gefnogaeth i argymhelliad y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol i ymchwilio posibiliadau cyllid ychwanegol ar gyfer y system mewn cysylltiad gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i adolygu cydraddoldeb o ran darpariaeth ar draws y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Fwrdeistref Sirol. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 7** | **<u>CYNLLUN BUSNES EAS 2021-2022 (DRAFFT YMGYNGHORI)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr, EAS.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad sy'n amlinellu cynnwys llawn drafft Gynllun Busnes EAS 2021-2022 a chyfeiriodd y Pwyllgor Gweithredol at y Nodau Addysg a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y cafodd yr adroddiad ei gefnogi'n llawn gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Nododd yr Aelod Gweithredol dros Addysg yr adroddiad sydd yn hunanesboniadol a chytunodd fod y Nodau Addysg a luniwyd ar y cyd yn union yr hyn mae'r Awdurdod ei angen wrth ddod allan o'r pandemig. Cytunodd yr Arweinydd gyda'r sylwadau a dywedodd fod y rhain yn feysydd lle mae dialog barhaus.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>POLISI DERBYN ADDYSG BLAENAU GWENT AR GYFER ADDYSG FEITHRIN A STATUDOL 2022/23</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad sy'n rhoi manylion canlyniad yr adolygiad blynyddol a'r broses ymgynghori yn gysylltiedig gyda Pholisi Derbyn Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol ac amlinellodd y prif newidiadau a wnaed i'r ddogfen ar gyfer sesiwn academaidd 2022/2023.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol dros Addysg yr adroddiad ac roedd yn falch gweld y byddem fel awdurdod lleol yn medru gweithio gyda Chymuned Ddysgu Abertyleri o ran derbyniadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ei gyhoeddi | |

| | | |
|---|---|---|
| | erbyn 15 Ebrill 2020. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 9** | **<u>DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Busnes ac Adfywio.<br><br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol drosolwg o'r diweddariad ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan a rhoddodd grynodeb o gyd-destun y Cynllun. Dywedodd fod gan Flaenau Gwent gysylltiadau cryf gyda gweithgynhyrchu, fodd bynnag mae hefyd gysylltiadau cryf gyda thwristiaeth ac mae'r Cynllun yn sicrhau y byddai sefydliadau, busnesau a phobl yn cydweithio i gyflawni targedau a gytunwyd. Nododd ymhellach y themâu trawsbynciol a'r pum prif thema a fanylir yn yr adroddiad a dywedodd fod y Pwyllgor Craffu wedi cefnogi'r cynllun.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd na chafodd ardaloedd diwydiannol De Ddwyrain Cymru eu hystyried dros y blynyddoedd fel man ar gyfer twristiaeth neu atyniad i ddod ag ymweld â Chymru, fodd bynnag mae pethau wedi newid erbyn hyn. Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol iddo fynychu cyfarfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ddiweddar gydag awdurdodau eraill ac mae cyfle yn awr i fanteisio ar asedau hanesyddol a gofodau gwyrdd ein cymoedd.<br><br>Mae llawer iawn o ofodau gwyrdd yng Nghymru, er y caiff Cymru ei hyrwyddo fel arfer drwy ein llwybrau arfordirol a thraethau hardd. Nodwyd fod hefyd ardaloedd gwyrdd tebyg i Lynnoedd Cwmtyleri a Pharc Bryn Bach sydd ar gael ym Mlaenau Gwent ac sy'n arwain at ofodau gwyrdd eraill ar draws y Cymoedd.<br><br>Teimlai'r Aelod Gweithredol fod angen wrth symud ymlaen i edrych ar lety a thrafnidiaeth yn y Fwrdeistref yn ogystal ag allan o Flaenau Gwent. Cytunodd yr Arweinydd gyda'r sylwadau a wnaed a chroesawodd yr agwedd trafnidiaeth gan fod hyn yn hanfodol wrth gyflawni nodau'r Cynllun.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 10** | **<u>CYLLIDO TORFOL DINESIG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cymunedau Cysylltiedig.<br><br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol drosolwg manwl o'r adroddiad a dywedodd y cafodd yr adroddiad ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu oedd yn croesawu fod hon yn ffordd wahanol i gael mynediad i gyllid a chefnogi grwpiau cymunedol lleol.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y strwythur newydd sy'n rhoi cyfle i grwpiau cymunedol i gydweithio a chael mynediad i gyllid mewn ffordd wahanol. Gobeithid y byddai hyn yn dod â grwpiau ynghyd o bob rhan o'r Fwrdeistref ac yn rhoi rôl allweddol i'r Cyngor wrth weithio gyda grwpiau lleol. Nododd yr Aelod Gweithredol y dialog a gynhaliwyd am gyllido torfol a theimlai ei bod yn ffordd newydd a chadarnhaol i gyrchu cyllid ar gyfer cymunedau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2: sef cyflwyno cais am Gyllid Her Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer llwyfan cyllido torfol dinesig, gan weithredu fel yr awdurdod arweiniol. Cymeradwywyd hefyd weithredu llwyfan cyllido torfol rhanbarthol, yn cynnwys Blaenau Gwent, i gefnogi datrysiadau i brosiectau a heriau a ddynodwyd yn lleol, yn amodol ar ddyfarnu cyllid. | |
| **No. 11** | **<u>ADRODDIAD UWCH GANOLFAN PEIRIANNEG A MTC</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sydd â dwy elfen, yn gyntaf Canolfan Rhagoriaeth Manufacturing Technology Catapult (MTC) y Deyrnas Unedig ar ddyfodol gweithgynhyrchu. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, fel rhan o waith gyda Cymoedd Technoleg, y gofynnwyd lle roedd angen i sylfaen sgiliau Blaenau Gwent fod yn gystadleuol dros y 10 mlynedd nesaf Cynhaliwyd arolwg a ddynododd nad yw busnesau bach a chanolig ar hyn o bryd mewn sefyllfa ariannol a fyddai'n annog unrhyw fuddsoddiad sylweddol mewn naill ai hyfforddiant staff neu offer newydd.<br><br>Fel canlyniad i'r arolwg dywedwyd yr argymhellwyd fod y Ganolfan | |

Uwch Beirianneg yn cynnig amrywiaeth o raglenni ymwybyddiaeth technoleg a fyddai'n galluogi busnesau bach a chanolig i ymchwilio, ar gost isel iawn, fanteision defnyddio amrywiaeth o dechnolegau gyda'r potensial i wella effeithiolrwydd eu busnes, tra hefyd yn datblygu ffrydiau refeniw ychwanegol drwy arallgyfeirio i gynnyrch a gwasanaethau ychwanegol.

Gyda'r argymhellion hyn y bydd y timau yng Ngholeg Gwent a'r awdurdod lleol wedi ystyried yn ofalus yr offer a brynwyd ar gyfer y safle a gweledigaeth i ddatblygu Canolfan Uwch Beirianneg a fyddai'n creu amgylchedd a fyddai'n denu mewnfuddsoddwyr technoleg uchel o fewn y sector Uwch Weithgynhyrchu.

Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yn croesawu ymgyfraniad Coleg Gwent oedd yn dymuno gweithio mewn partneriaeth gyda'r cyfleuster a byddai'n sylfaen i'r cyllid refeniw i gyflawni'r ystod sgiliau sydd eu hangen. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff hen adeilad Monwel ei drosi yn gyfleuster hyfforddiant gyda'r Cyngor yn berchennog gyda phrydles hir i Goleg Gwent. Cyflwynwyd cynnig i Cymoedd Technoleg i gyllido gwaith cyfalaf a byddai'r costau hynny yn cynnwys offer gan y disgwylir y bydd yn gyfleuster o'r math diweddaraf un.

Croesawodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad a chyfeiriodd at adroddiad a gyhoeddwyd pan gafodd y Gwaith Dur ei gau lle mai un o'r datganiadau allweddol oedd mai addysg yw'r ffordd allan o dlodi. Teimlai'r Aelod Gweithredol fod y Cyngor yn cyflawni hyn gyda'r adroddiadau a gyflwynwyd. Bu llawer o sôn nad oes gan Flaenau Gwent y sylfaen sgiliau neu galluoedd mewn rhai meysydd, fodd bynnag nid oedd hyn mwyach yn wir, drwy i dimau mewn ysgolion a Choleg Gwent yn cydweithio'n nes nag y buont mewn llawer o flynyddoedd. Byddai'r Ganolfan hon yn rhan o ddarlun mwy ac er fod y sgiliau hyn ar y brig, roedd yn dal i fod angen trydanwyr a gosodwyr brics ac mae gan Goleg Gwent y cyfleusterau hyfforddiant hyn sydd angen eu hyrwyddo.

Daeth yr Aelod Gweithredol i ben drwy dweud, wrth i'r Awdurdod symud ymlaen fel partneriaid gyda Cymoedd Technoleg a'r Brifddinas-Ranbarth, rhagwelid y byddai busnesau yn edrych ar draws y cwm i Flaenau Gwent ac roedd yn bleser mawr ganddo gyflwyno'r adroddiad hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunodd yr Aelod Gweithredol Addysg gyda'r sylwadau a wnaed a rhannodd y brwdfrydedd am brentisiaethau sydd yn bwysig. Roedd hwn yn gyfle gwych ac yn bartneriaeth rhwng Addysg ac Adfywio sy'n rhoi cyfleoedd cyffrous ar gyfer ein pobl ifanc.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y caiff yr adroddiad ei groesawu gan y Pwyllgor Gweithredol sydd wedi gosod Blaenau Gwent a'r rhanbarth ar wahanol lefel un y dylid bod wedi ei thrin flynyddoedd yn ôl. Dylid cydnabod a gwerthfawrogi angerdd Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio am ei ardal a'i egni ac wrth fynnu y dylai'r ardaloedd hyn gael lle blaenllaw. Dywedodd yr Arweinydd fod yr Aelod Gweithredol i gael ei ganmol yn fawr a daeth i ben drwy ddweud fod yr adroddiad yn rhoi cyfleoedd cyffrous i'n pobl ifanc.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2, sef:<br>• cymeradwyo adroddiad MTC a'r argymhellion cysylltiedig; a<br>• nodi a chymeradwyo cyflwyniad Cwm Technoleg ar gyfer ailwampio Monwel i'r Ganolfan Uwch Beirianneg. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 12** | **<u>STRATEGAETH DDIWYGIEDIG GOSTYNGIAD DIOGEL YN NIFER Y PLANT SY'N DERBYN GOFAL 2020 - 2025</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yn fanwl am yr adroddiad sy'n darparu strategaeth ddiwygiedig Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu'r strategaeth ddechreuol yn ei lle am 3 blynedd ac oherwydd y gwaith da mewn gostwng nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal, teimlid y byddai'n fuddiol i ddiwygio ac adolygu'r strategaeth. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach y prif argymhellion ac amcanion a dywedodd y bu'r effaith nid yn unig ar ostwng nifer y plant sydd angen dod i ofal ond hefyd ar y pwysau cyllideb ar Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor.<br><br>Dywedwyd yr adroddwyd gorwariant o £2.5m yn 2016/2017 a bod hynny wedi gostwng yn sylweddol i danwariant o £75,494 ym mlwyddyn ariannol 2019/2020, felly gobeithid y byddai parhau â'r Strategaeth yn galluogi Gwasanaethau Plant ymhellach i reoli eu cyllidebau yn y dyfodol.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad | |

| | | |
|---|---|---|
| | a nododd y penderfyniad mawr a gymerwyd yn 2017 pan gynyddodd nifer y plant a ddaeth i ofal. Dywedodd yr Aelod Gweithredol y cafodd y Tîm Ymyl Gofal, a ran-ariannwyd gan Gwasanaethau Cymdeithasol a grant gan Lywodraeth Cymru, ei lunio i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n dod i ofal. Roedd y nifer tua 237 ym mis Gorffennaf 2018, fodd bynnag roedd yr Aelod Gweithredol yn falch i ddweud fod y nifer yn 2021 yn 199. Teimlai'r Aelod Gweithredol fod hon yn gryn gamp ac yn adlewyrchu gwaith ardderchog y Tîm dros y blynyddoedd.<br><br>Nododd yr Aelod Gweithredol waith arall a wnaed mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn Sir Fynwy gyda phlant gydag anghenion mwy cymhleth mewn gofal. Fe welodd y gwaith hwn hefyd ostyngiad mewn nifer o 18 i 12. Mae'r gostyngiadau hyn yn dangos fod ein tîm Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo'n llawn i ofalu am blant yn ein cymunedau ac yn perfformio'n dda. Dywedodd yr Aelod Gweithredol mor falch yr oedd gyda gwaith rhagorol staff Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cytunodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd gyda'r sylwadau a wnaed a chydnabod y gwaith gwych mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD** | |
| **No. 13** | **ADRODDIAD SEFYLLFA CEFFYLAU SY'N PORI'N ANGHYFREITHLON**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol..<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2, sef bod y Pwyllgor Gweithredol yn cefnogi'r broses bresennol ar gyfer symud ceffylau a nodir yn yr adroddiad gyda defnydd contractwyr a'r costau yn gysylltiedig gyda hyn a bod y Cyngor yn ystyried gweithio gyda phartneriaid, ac yn cael caniatâd i ddilyn gorfodaeth yng nghyswllt y Ddeddf Rheoli Ceffylau mewn ardaloedd lle mae problemau sylweddol yn unol ag Amcan 2 y Cynllun Llesiant. | |
| | **EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 14** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2020/2021, RHAGOLWG ALLDRO HYD 31 MAWRTH 2021 (FEL YN 31 RHAGFYR 2020).**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fanwl am yr adroddiad sy'n rhoi rhagolwg sefyllfa all-dro ariannol i'r Pwyllgor Gweithredol ar draws pob portffolio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 yn ôl rhagolwg 31 Rhagfyr 2020. Amlinellodd y Prif Swyddog bwyntiau allweddol yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r effaith ar y gyllideb fel y manylir yn yr adroddiad.<br><br>Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Swyddog am y trosolwg o'r adroddiad a gofynnodd am drefnu is-grŵp ar Bwysau Cost i roi ystyriaeth i'r Cynlluniau Gweithredu. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y tîm yn gweithio ar hyn o bryd ar yr all-dro darpariaethol er mwyn rhoi sefyllfa fwy diweddar i'r is-grŵp ar Bwysau Cost.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a rhoi her briodol i'r deilliannau ariannol a nodwyd yn yr adroddiad. | |
| **No. 15** | **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/2021 (FEL AR 31 RHAGFYR 2020)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad a chyfeiriodd at y prosiectau oedd wedi adrodd gorwariant sylweddol, fel sy'n dilyn:-<br><br>**Canolfan Ailgylchu Gwastraff Aelwydydd - £204,095**<br>**Parc Busnes Rhodfa Falch - £234,710**<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y dynodwyd y ddau orwariant fel bod yn ymwneud â chostau uwch a achoswyd gan bandemig Covid-19. Mae trafodaethau gyda chyrff cyllido yn mynd rhagddynt i ofyn am gyllid ychwanegol.<br><br>Dywedwyd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cefnogaeth ariannol am gostau a gafwyd fel canlyniad i ddifrod llifogydd yn ystod mis Mawrth 2020. Fel canlyniad, disgwylir yn awr y caiff y gorwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter o £24,000 yng nghyswllt gwaith adferiad llifogydd. Felly, ni fyddai angen adnoddau'r Cyngor ei hun ar gyfer y gwaith trwsio ar Heol Aber-big, felly cynigiwyd y byddid ailosod y dyraniad o £405k ym mhrosiect y Bwa Mawr fel y cytunwyd gan y Cyngor ar 23 Gorffennaf 2020.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y cafodd y materion hyn eu hystyried yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a chafodd y rhaglen cyfalaf ei hail-alinio yn unol â hynny.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn Roseheyworth lle bu oedi oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, gobeithid y byddai'r costau ychwanegol hyn yn cael eu dileu oherwydd ei bod ar fin ailagor a gwahoddodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd i roi diweddariad.<br><br>Roedd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yn falch i ddweud y byddai'r ail Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn Roseheyworth yn agor ddydd Llun drwy'r system archebu ar-lein. Dywedwyd y gallai preswylwyr naill ai ffonio | |

| | | |
|---|---|---|
| | neu archebu ar-lein a chafodd hynny groeso da iawn hyd yma. Bu rhai problemau ac ymholiadau o ran beth fedrid ei dderbyn, fodd bynnag gobeithid y byddai'r materion hynny yn cael eu trin drwy ddatganiad i'r wasg y byddai'n cael ei gyhoeddi cyn agor.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd y newyddion da a dywedodd ei fod yn brosiect arall yr oedd y weinyddiaeth wedi ymrwymo i'e gyflawni.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at arian ychwanegol ar gyfer gwaith priffyrdd a dywedodd y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu yn yr wythnosau nesaf i ddatblygu rhaglen o waith ar ffyrdd a strydoedd preswyl i barhau'r gwaith a ddechreuwyd yn 2017. Gobeithid y gallai cyfres o weithiau ddechrau yn y misoedd nesaf yn dilyn y trafodaethau hyn.<br><br>PENDERFYNWYD i dderbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef darparu'r her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad, cefnogaeth barhaus i'r gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor, a'r gweithdrefnau rheoli a monitro'r gyllideb sydd yn eu lle o fewn y Tîm Cyfalaf, i ddiogelu cyllid yr Awdurdod. | |
| **No. 16** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDIN A CHRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau bwyntiau allweddol yr adroddiad a dweud, er fod y cronfeydd wrth gefn yn cyd-fynd â'r targedau a osodwyd gan yr Awdurdod, ei bod yn hollbwysig fod y Cyngor yn sicrhau lefel addas o gronfeydd wrth gefn i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol o gymharu ag Awdurdodau eraill Cymru, roedd Blaenau Gwent yn dal i fod ag un o'r lefelau isaf o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.<br><br>Nododd yr Arweinydd y lefel briodol o gronfeydd wrth gefn a dywedodd fod gan yr Awdurdod beth ffordd i fynd o hyd o gymharu â mwyafrif llethol awdurdodau lleol ledled Cymru. Roedd yn bwysig fod cydnerthedd ariannol ychwanegol tu cefn i'[r Awdurdod ac y byddai pwysau ychwanegol ar lywodraeth leol yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Ategodd yr Arweinydd mai safiad a gymerodd yr Awdurdod yn ariannol adeg gosod cyllideb oedd yr un cywir gan ei fod yn ymwneud â budd hirdymor y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac<br><br>• ystyried y rhagolwg defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer 2020/2021; | |

| | | |
|---|---|---|
| | • ystyried yr effaith y byddai amrywiad ffafriol o £0.552m ar gyfer 2020/2021 yn ei gael ar y cyfraniad yn y gyllideb i'r gronfa gyffredinol wrth gefn;<br><br>• nodi'r rhagolwg cynnydd yn y gronfa gyffredinol yn 2020/2021 i £7.151m, sef 5.28% o wariant refeniw net (uwch na'r lefel targed o 4%; a<br><br>• parhau i herio gor-wariant y gyllideb a gweithredu cynlluniau gweithredu gwasanaeth addas lle mae angen.<br><br>Mae cynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar lefel ddigonol yn hanfodol wrth i'r Cyngor fedru cyflawni rhwymedigaethau'r dyfodol yn deillio o risgiau na wnaed darpariaeth penodol ar eu cyfer. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO – ADDYSG</u>** | |
| **No. 17** | **<u>ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN – YMATEB BLAENAU GWENT I COVID-19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad sy'n ymwneud ag adroddiad adolygiad thematig Estyn sy'n amlinellu naratif ar yr ymateb corfforaethol i sefyllfa COVID-19, yn neilltuol yn cefnogi'r ysgolion yn ystod cyfnod yr argyfwng. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y rhoddir llythyr yr Adolygiad Thematig yn Atodiad 1 a dywedodd fod y llythyr yn gyffredinol gadarnhaol ac yn cyfeirio at uchafbwyntiau ymarfer nodedig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod canfyddiadau'r Adolygiad yn rhoi sicrwydd fod y Cyngor/Cyfarwyddiaeth Addysg wedi trin yr ymateb argyfwng yn dda wrth gefnogi ysgolion, ond yn amlwg mae hefyd feysydd i'w dysgu wrth symud ymlaen.<br><br>Ar wahoddiad yr Arweinydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yr adborth cadarnhaol a gafwyd o'r cyfarfod a y cyd a gynhaliwyd gyda Rheoleiddwyr y Cyngor.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Estyn fod yr wybodaeth a gyflwynwyd gan Estyn yn adeiladol o ran lle mae'r Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor ar hyn o bryd. Roedd yn dda nodi eu bod yn dynodi cydweithio corfforaethol cryf ac yn gweithio ar draws y Cyngor gan fod Fframwaith Llywodraeth Leol ar gyfer Gwasanaethau Addysg | |

| | | |
|---|---|---|
| | (LGES) Estyn yn seiliedig ar waith corfforaethol y Cyngor, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad gwaith y Gyfarwyddiaeth Addysg yn unig yn hyn ond yn bwysig y ffordd y mae'r Cyngor yn cefnogi dysgwyr yn gyffredinol. Mae'r tri maes a ddynododd Estyn i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yn hysbys i swyddogion. Mae cydnabyddiaeth fod y Cyngor yn adnabod ysgolion yn dda a'u bod mewn sefyllfa dda i gefnogi ysgolion sydd angen cefnogaeth. Rhagwelwyd, lle dynodwyd fod ysgolion yn tanberfformio, fod arwyddion calonogol gyda'r potensial i gael eu symud o gategori Estyn yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Estyn yr adroddiad cadarnhaol a theimlai y cafodd yr ymateb argyfwng ei drin yn dda gyda gwaith effeithlon a chydweithio cryf ar draws yr Awdurdod a gydag ysgolion sy'n dangos y berthynas dda. Dymunai'r Aelod Gweithredol ddiolch i'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac adrannau ar draws y Cyngor yn ogystal â staff seiliedig mewn ysgolion a fu'n cydweithi'n effeithlon yn ystod y pandemig er budd ein dysgwyr.<br><br>Cytunodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd y bu'r gwaith drwyddo draw yn rhagorol ac y teimlai fod y cysylltiadau hyn gydag ysgolion wedi dod yn gryfach.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 18** | **<u>FFURFLEN FLYNYDDOL 2019/20 SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 19** | **<u>YMATEB GWASANAETHAU PLANT I BLANT AGORED I NIWED YN YSTOD PANDEMIG COVID-19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymdeithasol drosolwg o'r adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth ar sut y newidiodd Gwasanaethau Plant y ffordd y darparwyd gwasanaethau drwy gydol pandemig Covid-19.<br><br>Roedd yr Adran wedi trin y pandemig ar sail ranbarthol ac roedd penaethiaid gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi cwrdd ar sail Gwent-gyfan a phenderfynu sut i drin y pandemig. Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad ymhellach a dweud sut y symudwyd ymlaen gyda gweithio rhanbarthol ym Mlaenau Gwent.<br><br>Yn nhermau'r cyfarfod diweddar a gynhaliwyd gyda Rheoleiddwyr y Cwmni, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn gadarnhaol am reolwyr a staff a sut yr oeddent wedi parhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cymunedau ym Mlaenau Gwent a pha mor dda yr ydym wedi gweithio gyda phartneriaid yn gorfforaethol a hefyd gyda chydweithwyr eraill yn ystod pandemig Covid-19. Roedd gan yr Arolygiaeth sicrwydd a hyder yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth barhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cefnogi'r adroddiad a nododd eu gwerthfawrogiad o staff ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith gyda theuluoedd yn ystod y pandemig.<br><br>Dymunai Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol ategu ei ddiolch am y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig. Bu'r cydweithio ar draws y Cyngor yn rhagorol a chroesawyd y sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 20** | **<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>** | |
| **No. 21** | **<u>DIWEDDARIAD AR GOSTAU CYFREITHIOL YN GYSYLLTIEDIG GYDA GWASANAETHAU PLANT</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gal ei eithrio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Cymru 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1. | |